Image not found or type unknown

# Cynllun gweithredu Ymlaen: 2024 i 2025

Cyhoeddwyd gyntaf: 16 October 2024

Diweddariad olaf: 18 October 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/cynllun-gweithredu-ymlaen-2024-i-2025 am y fersiwn diweddaraf.

Sut byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaied i gyflawni uchelgeisiau Ymlaen - y strategaeth ymchwil, arloesi a gwella ar gyfer gofal cymdeithasol.

Mae pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yn mynd gam ymhellach i ddarparu gwasanaethau sy'n gwella canlyniadau i bobl Cymru.

Rydyn ni eisiau creu diwylliant lle mae tystiolaeth a pholisi yn ganolog i'r broses gyflawni ac yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau ar bob lefel o ofal cymdeithasol. I greu diwylliant lle mae pobl yn teimlo ysbrydoliaeth a chefnogaeth i roi cynnig ar bethau newydd.

Ymlaen yw'r strategaeth rydyn ni wedi'i datblygu gyda'n gilydd i gyflawni'r nodau hynny.

## Ein gweledigaeth

Helpu pobl sy'n arwain, yn datblygu ac yn darparu gofal cymdeithasol i deimlo'n hyderus, a'u bod yn cael eu cefnogi a'u hysbrydoli i ddefnyddio ymarfer, tystiolaeth ac arloesedd i wneud gwahaniaeth positif i ofal a chymorth yng Nghymru.

I wireddu'r weledigaeth, bydd angen cydweithio cryf ar draws ystod eang o sefydliadau partner. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn arwain y strategaeth newydd hon ac yn gweithio gyda phartneriaid i'w chyflawni.

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw golwg ar y gweithredu ac yn dod â phartneriaid a rhanddeiliaid at ei gilydd yn rheolaidd i rannu cynnydd ac i gytuno ar ein gwaith yn y dyfodol.

Nod ein strategaeth newydd yw gwneud cyfraniad pob partner yn gliriach o ran cefnogi ymchwil, arloesi a gwella parhaus. Mae'n gyfle i bob un ohonon ni 'uno'r

dotiau' i bobl sy’n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, ac i wneud y gwaith caled o ddod o hyd i'r hyn sydd ei angen arnyn nhw i wneud gwahaniaeth i sut maen nhw’n darparu cymorth.

## Darllen y strategaeth

I gyflawni gweledigaeth Ymlaen, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn:

### Pennu cyfeiriad

Dangos

Nodi blaenoriaethau cyffredin ar gyfer ymchwil, arloesi a gwella fel y gallwn gyfeirio sylw, adnoddau a chamau gweithredu i'r mannau lle mae eu hangen fwyaf.

**Pam?**

Mae’n bwysig ein bod ni’n canolbwyntio ar sicrhau bod ein pwyslais yn bositif, yn ddefnyddiol, yn gynhyrchiol ac yn cael ei lywio gan yr hyn sydd bwysicaf i bobl. Mae angen i ni fabwysiadu dull croestoriadol, lle rydyn ni’n ystyried sut y gall gwahanol fathau o wahaniaethu rhyngweithio a llunio profiadau unigryw pobl.

**Beth fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud yn y flwyddyn gyntaf**

Byddwn yn archwilio dull o sganio’r gorwel a gosod blaenoriaethau ar y cyd ar gyfer gwaith ymchwil, arloesi a gwella parhaus ar gyfer gofal cymdeithasol. Bydd y gwaith hwn wedyn yn cael ei gynllunio a’i roi ar waith yn 2025 i 2026.

Byddwn yn cynnal ymarferion blaenoriaethu ymchwil. Bydd hyn yn pennu lle mae angen mwy o ymchwil ac yn ei flaenoriaethu, er mwyn llywio gwaith ymchwilwyr, cyllidwyr a rhanddeiliaid eraill ar:

- bontio rhwng gofal cymdeithasol plant ac oedolion
- ddefnyddio data cysylltiedig ar gyfer ymchwil ar ofal cymdeithasol oedolion.

Byddwn yn darparu arweinyddiaeth, arbenigedd a mewnbwn i lunwyr polisi ar gyfer gwella parhaus a gwaith arloesi trwy:

- arwain y rhaglen waith sydd wedi'i gytuno i gefnogi arloesedd ym maes gofal cymdeithasol ar ran Llywodraeth Cymru, fel sydd wedi’i nodi yn Cymru’n arloesi: creu Cymru gryfach, decach, a gwyrddach
- ddatblygu tystiolaeth ar gyfer materion polisi allweddol, fel yn ein Cyfres Mewnwelediadau Gweithlu a Phorth Data Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru.

Byddwn yn cynnal asesiad aeddfedrwydd data i roi cyfeiriad ar gyfer gwaith data sy’n cefnogi gwella parhaus ym maes gofal cymdeithasol.

Byddwn yn cynnal asesiad aeddfedrwydd a llythrennedd digidol ar draws awdurdodau lleol a darparwyr i ddarparu cyfeiriad ar gyfer datblygiad digidol a dysgu mewn gofal cymdeithasol.

Byddwn yn arwain y thema gofal cymdeithasol ar gyfer rhaglen waith Ymchwil Data Gweinyddol Cymru.

## Cysylltu

Dangos

'Uno'r dotiau' rhwng y gwahanol fathau o gymorth ar gyfer ymchwil, arloesi a gwella parhaus ym maes gofal cymdeithasol.

**Pam?**

I’r rhai sy’n cyd-gynllunio, darparu ac arwain gwasanaethau, mae angen i ni greu system gymorth sy'n meithrin diwylliant cadarnhaol o gydweithio. Mae angen iddi ysgogi camau gweithredu a bod yn hyblyg i ddiwallu anghenion gwahanol.

**Beth fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud yn y flwyddyn gyntaf**

Byddwn yn dod â phartneriaid Ymlaen at ei gilydd i ymuno a dysgu o’n gwaith ar ymchwil, arloesi a gwella parhaus drwy:

- gydweithio ag ExChange ar ddigwyddiadau a chyhoeddiadau ar y cyd
- gefnogi Technoleg Iechyd Cymru yn eu gwaith gofal cymdeithasol
- hyrwyddo canfyddiadau o waith partner gyda’n rhwydweithiau, fel gwaith The Networked Data Lab ar ailalluogi
- gefnogi prosiectau gofal cymdeithasol a phrosiectau ‘her’ gyda’r Fenter Ymchwil Busnesau Bach
- helpu pobl ym maes gofal cymdeithasol i wneud cais am raglen Esiamplwyr Bevan
- gefnogi’r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i weithredu pecyn hyfforddi diogelu Grŵp B.

Byddwn yn rhannu ac yn hyrwyddo canfyddiadau o waith partner gyda’n rhwydweithiau drwy wefan Y Grŵp Gwybodaeth.

Byddwn yn dod â’n cymuned ymarfer ar gyfer Unigolion Cyfrifol ynghyd, gyda chymorth Arolygiaeth Gofal Cymru.

Byddwn yn dod â’n Cymuned Dystiolaeth ar gyfer ymchwilwyr ac ymarferwyr gofal cymdeithasol ynghyd.

Byddwn yn ariannu, yn cefnogi ac yn hyrwyddo’r rhaglen Datblygu Arfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth (DEEP) i:

- ddylunio, datblygu, darparu a chefnogi gweithredu offer, dulliau ac adnoddau DEEP newydd
- ddarparu hyfforddiant a digwyddiadau DEEP
- ddarparu hyfforddiant a chyngor ar sgiliau ymchwil.

Byddwn yn hyrwyddo’r rhaglen sgiliau cyfathrebu cydweithredol i ymgorffori arfer sy’n seiliedig ar gryfderau.

Byddwn yn gweithio gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru (HCRW) i archwilio cymorth pwrpasol i annog a meithrin tystiolaeth sy’n cyfoethogi llysgenhadon ymarfer ar draws y sector.

## Galluogi

Dangos

Creu amodau sy'n galluogi newid positif a pharhaol ym maes gofal cymdeithasol.

**Pam?**

Mae angen i ni ei gwneud hi'n bosibl i bobl ddysgu a thyfu, ac i ymateb i'r heriau ym maes gofal cymdeithasol. Mae potensial gan bethau fel dulliau rheoleiddio a chyllido i godi rhwystrau os nad ydyn nhw wedi'u cynllunio i gefnogi'r weledigaeth a'r uchelgeisiau ar gyfer gofal cymdeithasol.

**Beth fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud yn y flwyddyn gyntaf**

Byddwn yn hyrwyddo ein fframwaith llesiant gweithlu ac egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol. Byddwn yn helpu pobl i roi’r gwerthoedd hyn ar waith trwy sesiynau dysgu a gwybodaeth pwrpasol.

Byddwn yn hyrwyddo gwybodaeth ac adnoddau i alluogi ystod ehangach o bartneriaid i ddeall ac ymgysylltu â gofal cymdeithasol yng Nghymru, drwy

bethau fel ein fideos Beth yw gofal cymdeithasol?

Byddwn yn datblygu ac yn rhannu canllaw i helpu pobl i greu a meithrin diwylliannau cadarnhaol a chefnogi ei weithrediad a'r dysgu. Bydd canllaw diwylliannau cadarnhaol yn disgrifio'r elfennau sy'n helpu i greu diwylliant lle mae pobl a gwasanaethau yn ffynnu.

Byddwn yn gweithredu ein cynnig cymorth i ymchwilwyr ar gyfer prifysgolion a chanolfannau ymchwil drwy:

- gefnogi ymchwil am ofal cymdeithasol drwy ein fframwaith cymorth ymchwil ac ymgysylltu
- sefydlu a chynnal grŵp ymchwil data cysylltiedig gofal cymdeithasol i oedolion
- eistedd ar baneli ariannu ymchwil.

Byddwn yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi crynodebau tystiolaeth o ansawdd uchel ar bynciau blaenoriaeth ym maes gofal cymdeithasol.

Byddwn yn cynnal ymchwil ac yn casglu a dadansoddi data am y gweithlu, gan gynnwys drwy:

- ein hymarfer casglu data blynyddol gydag awdurdodau lleol a chyflogwyr gofal cymdeithasol
- 'Dweud eich dweud', ein harolwg gweithlu blynyddol.

Byddwn yn gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i roi'r porth llywodraethu rhannu gwybodaeth ar waith mewn awdurdodau lleol i'w gwneud yn haws rhannu data a allai helpu i ysgogi gwelliant.

## Cefnogi

Dangos

Darparu cymorth uniongyrchol i bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i annog ymchwil, arloesi a gwella parhaus.

**Pam?**

Mae angen i ni gefnogi ymchwil, arloesi a gwella parhaus mewn ffyrdd sy'n ymateb i uchelgeisiau a chymhlethdodau gofal cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar ein dyheadau polisi cenedlaethol i greu gwlad decach a mwy cyfartal.

**Beth fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud yn y flwyddyn gyntaf**

Byddwn yn cefnogi rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid gofal cymdeithasol plant drwy:

- wreiddio dulliau therapiwtig sy’n seiliedig ar dystiolaeth drwy ddarparu hyfforddiant PACE a digwyddiadau i gefnogi modelau gofal
- ddod â’n cymuned o weithredu ynghyd ar gyfer pobl sy'n arwain y gwaith o ddatblygu modelau newydd o ofal preswyl mewn awdurdodau lleol
- weithio gyda rhaglen Gofalwn Cymru i hyrwyddo gyrfaoedd mewn gofal preswyl.

Byddwn yn cefnogi pobl a sefydliadau i ddatblygu eu dulliau gweithredu a’u hyder mewn ymarfer sy’n seiliedig ar gryfderau, drwy:

- gyflwyno gweithdai a hyfforddiant pwrpasol i asiantaethau partner
- greu a rhannu canllaw newydd ar gyfer comisiynu a gwerthuso hyfforddiant
- ddod â'r rhwydwaith mentoriaid cenedlaethol ynghyd.

Byddwn yn darparu cefnogaeth gwerthuso i bobl sy’n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, drwy:

- gyflwyno cyfres o fodiwlau gwerthuso
- ddarparu cyngor a chymorth pwrpasol drwy sesiynau galw heibio

- ddatblygu adnoddau gwerthuso.

Byddwn yn gwella ein cynnig symudedd gwybodaeth ac yn parhau i ddarparu mentora a chefnogaeth uniongyrchol.

Byddwn yn lansio adnodd i gefnogi pobl i ddatblygu eu sgiliau mewn ymchwil ymarfer, arloesi a gwella parhaus.

Byddwn yn dylunio, datblygu, darparu a chefnogi gweithredu, dulliau ac adnoddau arloesi newydd drwy:

- ddarparu anogaeth arloesedd i grwpiau ac unigolion
- sefydlu a rheoli rhwydwaith cymorth cymheiriaid o bobl sydd wedi bod drwy’r broses anogaeth
- ddarparu hyfforddiant anogaeth arloesi, i gyflwyno'r offer a'r dulliau sy’n cael eu defnyddio fel rhan o'r anogaeth
- nodi a datblygu llysgenhadon ar gyfer anogaeth arloesedd.

Byddwn yn sefydlu ac yn hyrwyddo dull rheoli cymunedol wedi’i gyfoethogi gan dystiolaeth ar gyfer gofal cymdeithasol.

Byddwn yn darparu arbenigedd, cyngor a gofod digidol i bartneriaid ddylunio, sefydlu a rheoli eu cymunedau ymarfer eu hunain.

Byddwn yn helpu arweinwyr ym maes gofal cymdeithasol i ddatblygu’r sgiliau a’r diwylliannau ar gyfer arweinyddiaeth dosturiol gan ddefnyddio ein canllaw diwylliannau cadarnhaol drwy:

- gyflwyno sesiynau Cyflwyniad i arweinyddiaeth dosturiol i reolwyr gofal cymdeithasol
- ddarparu cefnogaeth, gwybodaeth ac adnoddau trwy ein tudalennau arweinyddiaeth dosturiol ac ar borth Gwella
- adeiladu rhwydwaith ar gyfer arweinyddiaeth dosturiol ym maes gofal cymdeithasol.

## Amharu

Dangos

Ysbrydoli ffyrdd newydd o weithio.

**Pam?**

Mae angen i ni fod yn fwy beiddgar a dewr wrth fynd i'r afael â'r heriau a'r anghydraddoldebau sy'n wynebu gofal cymdeithasol. Dyma'r unig ffordd byddwn ni’n creu modelau gofal a chymorth arloesol a chynaliadwy.

Mae angen i ni herio'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud nawr, a fydd yn cyflawni mwy o'r un peth, wrth werthfawrogi gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i wella canlyniadau. Bydd hyn yn ein helpu i ymateb i'r hyn sy'n bwysig, nawr ac yn y dyfodol.

**Beth fydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei wneud yn y flwyddyn gyntaf**

Byddwn yn cefnogi cyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol drwy:

- ddatblygu rhaglen i ddarparu cyfleoedd mentora, cysgodi a datblygu sgiliau i bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig i symud ymlaen yn y gweithle
- arwain ar gasglu data ar gyfer Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol (WRES). Bydd hyn yn cynnwys set o ddeuddeg mesur sy'n ein helpu i oleuo y rhwystrau a'r cyfleoedd i'r gweithlu gofal cymdeithasol ethnig amrywiol yng Nghymru.

Byddwn yn defnyddio tystiolaeth ymchwil ac ymgysylltu i adolygu, gweithredu a phrofi ffyrdd newydd ac arloesol o gefnogi gofal cymdeithasol, fel ein gwasanaeth anogaeth arloesedd.

Byddwn yn dod â’n cymuned o ddiddordeb ynghyd i archwilio a rhannu cyfleoedd ar gyfer datblygu gofal sy’n seiliedig ar le.

Byddwn yn cyhoeddi enghreifftiau o arfer arloesol a mentrau ymchwil ar ein porwr prosiectau, i helpu i ledaenu syniadau ac arfer.

Byddwn yn eiriol dros ofal cymdeithasol mewn polisïau cenedlaethol a gweithgorau i wneud yn siŵr bod eu gwaith yn adlewyrchu nodau ac anghenion gofal cymdeithasol, fel Grŵp Cynghori Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, Bwrdd Rhaglen yr Adnodd Data Cenedlaethol a’r Comisiwn AI.